OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1775 (Cy. 247)

# MEINWEOEDD DYNOL, CYMRU

## Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Deunydd Perthnasol a Eithrir) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Hydref 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *00:01 ar 1 Rhagfyr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau yn adrannau 7(2) ac 20(1) a (2) o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013(**1**) ac ar ôl cynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus sy'n briodol yn eu barn hwy yn unol ag adran 20(3) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 20(4) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Deunydd Perthnasol a Eithrir) (Cymru) 2015 a deuant i rym am 00:01 ar 1 Rhagfyr 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013.

**Deunydd perthnasol a eithrir**

**2.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i'r eithriadau ym mharagraff (4).

(2) At ddibenion adran 7(2) o'r Ddeddf, pennir y cyfan neu ran o'r meinweoedd cyfansawdd a ganlyn ("meinweoedd cyfansawdd a eithrir") yn ddeunydd perthnasol a eithrir—

(a) ymennydd;

(b) madruddyn y cefn;

(c) wyneb;

(d) trwyn;

(e) ceg;

(f) braich;

(**1**) 2013 dccc 5.

(g) rhan uchaf y fraich;

(h) elin;

(i) llaw;

(j) bys;

(k) coes;

(l) morddwyd;

(m) rhan isaf y goes;

(n) troed; neu

(o) bys troed.

(3) At ddibenion adran 7(2) o'r Ddeddf, pennir y cyfan neu ran o unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn ddeunydd perthnasol a eithrir—

(a) ofari;

(b) croth;

(c) pidyn;

(d) caill;

(e) ffetws;

(f) brych;

(g) llinyn bogail; neu

(h) embryo (y tu mewn i'r corff).

(4) Nid yw'r cyfan neu ran o unrhyw un neu ragor o'r canlynol sy'n rhan o unrhyw feinweoedd cyfansawdd a eithrir yn ddeunydd perthnasol a eithrir—

(a) llygad;

(b) meinweoedd nerfol;

(c) rhydweli;

(d) asgwrn;

(e) cyhyr;

(f) tendon; neu

(g) croen,

i'r graddau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer trawsblannu unrhyw feinweoedd cyfansawdd a eithrir.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

7 Hydref 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 ("y Ddeddf").

Mae adran 7(4) o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid cael cydsyniad datganedig ar gyfer tynnu deunydd perthnasol a eithrir at ddibenion gweithgaredd trawsblannu.

Mae rheoliad 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch y diffiniad o ddeunydd perthnasol a eithrir at ddibenion adran 7 o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.